

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.
These Minutes are subject to approval at the next appropriate meeting of the Committee

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, ddydd Mawrth, 10 Hydref 2017 am 5:00pm

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. Fox – Cadeirydd

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

S. A. Bradwick	S. Morgans
A. Cox	S. Powderhill
M. Diamond	D. Williams
W. Lewis	T. Williams

Swyddogion yn bresennol

Mr P.J. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Mr P Nicholls – Pennaeth – Cyfreithiol, Cyfreitha, Cynllunio a'r Amgylchedd, Gwasanaethau i Blant ac yn y Gymuned

Mr G. Black – Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu

34. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref L. Jones ac E. Webster.

35. DATGAN BUDDIANT

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r Cod Ymddygiad, nad oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol yn gysylltiedig â'r agenda.

36. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1988 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD nodi, pan mae'r Aelodau'n penderfynu ar faterion trwyddedu a chofrestru, bod dyletswydd arnynt i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

37. COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Medi 2017.

38. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYFLWYNWYD DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG

Yn ei adroddiad, cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd fanylion am y trwyddedau a'r cofrestriadau a gyflwynwyd rhwng 14 Awst 2017 a 24 Medi 2017. Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

39. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod dan Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygio) ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffiniwyd ym mharagraff 13 o Atodlen 12A o'r Ddeddf, sef, gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol. Mae tryloywder wrth gynnal busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol, fodd bynnag, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a galluogrwydd unigolion yn cael ei drafod a'i ystyried. Yn yr un modd, mae cynnal y gwaharddiad yn cael ei ystyried yn drech na buddiant y cyhoedd o ddatgelu gwybodaeth.

40. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – ADNEWYDDU AC ADOLYGU TRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACKNEY/HURIO PREIFAT

Dywedodd y Pennaeth Cyfreithiol, Cyfreitha, Cynllunio a'r Amgylchedd, Gwasanaethau i Blant ac yn Gymuned fod Mr LDJE o'r Porth wedi tynnu ei gais yn ôl wedi'r cwbl, ac na fydd yn bresennol.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r cais.

(**Noder:** Ar y pwynt hwn, cytunodd y Pwyllgor trwy gytundeb y Cadeirydd i ystyried yr agenda allan o drefn er mwyn caniatáu amser i Mr RL o Ynys-hir, a oedd yn cyflwyno cais am gasglwr symudol gerbron yr Aelodau, gyrraedd).

41. CRYNODEB GORFODI

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd ei adroddiad yn amlinellu'r gweithgareddau gorfodi diweddaraf, gan gynnwys unrhyw fanylion am erlyniadau ac apeliadau ar gyfer y cyfnod 26 Awst 2017 i 29 Medi 2017. Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys a ddarparwyd er gwybodaeth yn unig.

42. CRYNODEB O DRWYDDEDAU A GYFLWYNWYD DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd grynoded o Drwyddedau a/neu Gofrestriadau a gyflwynwyd dan ddarpariaethau'r Awdurdod Dirprwyedig am y cyfnod 14 Awst a 24 Medi 2017 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

43. YSTYRIED CEISIADAU I'W PENDERFYNU DAN DDARPARIAETHAU DEDDF MASNACHWYR METELAU SGRAP 2013

Yn ei adroddiad, cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, y cais canlynol ar gyfer cyflwyno trwydded gweithredwr symudol dan ddarpariaethau Deddf Masnachwyr Metelau Sgrap 2013.

1. Yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd, croesawyd Mr RL o Ynys-hir i'r cyfarfod er mwyn i'w gais am drwydded gweithredwr symudol gael ei ystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais am drwydded gweithredwr symudol â rhybudd ynghylch gweithgarwch y dyfodol.

(**Noder:** Cyn i'r ceisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i ystyried yn iawn rybudd y Pwyllgor, neu fel arall gallai hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau'r dyfodol).

A. S. Fox
Cadeirydd

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30pm